

# Meddygfa Beech House

69 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AY

Ffôn: 01745 812863
Ffacs: 01745 816574

Y Ganolfan Iechyd
The Roe
Llanelwy
LL17 0LU

Ffôn: 01745 582251
Ffacs: 01745 583495

Fferyllfa Beech House: 01745 813689

e-bost: enquiries.w91033@wales.nhs.uk

**www.beechhouse.gpsurgery.net**

# Proffil y Practis

Sefydlwyd Meddygfa Beech House yn 1850 yn nhref marchnad Dinbych. Mae gan y feddygfa ddalgylch eang, gwledig ac mae'n dosbarthu meddyginiaethau. Mae meddygfa ategol yn ninas gadeiriol fechan Llanelwy, chwe milltir i'r gogledd o Ddinbych.

Mae gennym dros 9,200 o gleifion ar ein rhestr cleifion, a gefnogir gan dîm gofal iechyd medrus, agos atoch yn cynnwys pump Phartner Meddyg Teulu, Cofrestryddion Meddygon Teulu, Nyrsys a Chynorthwywyr Gofal Iechyd, Ymwelwyr Iechyd, Bydwragedd, Nyrs Seiciatrig Gymuned, a staff Derbynfa, Dosbarthu a Gweinyddu. Defnyddir ymagwedd tîm wrth reoli'r practis a gofalu am iechyd cleifion. Arweinir datblygiadau'r practis gan gyfarfodydd practis a llywodraethu clinigol rheolaidd, dan arweiniad un o'r Partneriaid ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob disgyblaeth.

Mae naws y practis yn un o welliant parhaus ac mae'n cefnogi hyfforddiant. Ymgymerir â hyfforddiant staff rheolaidd yn fewnol, yn ogystal â mynychu cyrsiau allanol, yn rheolaidd. Mae'r practis yn derbyn myfyrwyr meddygol o Brifysgol Lerpwl ynghyd â cholegau meddygol eraill ac mae'n cefnogi myfyrwyr sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa mewn meddygaeth.

Rydym yn bractis gweithredol ymchwil ac yn cydweithio'n agos â BIPBC a'r Adran ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Rhydd hyn y cyfle i ni gynnig cyfleoedd i'n cleifion i gymryd rhan mewn ymchwil clinigol ac mae'n caniatáu i ni gyfrannu at ddatblygiad triniaethau newydd. Mae'r holl astudiaethau o ansawdd uchel ac fe'u cymeradwyir gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae gan y ddwy feddygfa system gyfrifiadurol lawn, sef 'Emis'. Rydym bron iawn â bod yn bractis di-bapur ac mae holl ganlyniadau a llythyrau ysbyty'r cleifion yn cael eu sganio i'w nodiadau iechyd.

Rydym yn gwneud Mân Lawdriniaethau a phigiadau i gymalau yn y practis. Rydym yn cynnig cyngor a brechiadau i deithwyr ac rydym hefyd yn Glinig y Dwymyn Felen. Mae nyrsys y practis yn darparu ystod lawn o wasanaethau, gan gynnwys hybu iechyd a rheoli clefydau cronig. Mae nyrsys cymuned yn ymweld â'r feddygfa'n ddyddiol ac mae ganddynt swyddogaeth lawn yn y Tîm Gofal Cychwynnol. Mae Ymwelwyr Iechyd yn gweithio o Inffyrmari Dinbych a Meddygfa Llanelwy. Cynhelir clinigau yn y practis gan nyrs seiciatryddol cymuned.

Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan, a leolir oddeutu wyth milltir i ffwrdd, yw'r Ysbyty Cyffredinol Dosbarth agosaf ac mae'n darparu'r holl wasanaethau i'r ardal. Mae Inffyrmari Dinbych yn darparu seibiant ymadfer a gofal nyrsio terfynol i gleifion meddygon teulu Dinbych, ynghyd ag uned mân anafiadau.

Darperir gwasanaeth y tu allan i oriau i'r practis gan GIG 111 Cymru o 6:30pm – 8:00am yn ystod yr wythnos, y penwythnos a Gwyliau Banc. Ffôn: 111. Gellir cael cyngor drwy ffonio GIG 111 ar 111 neu y gwefan https://111.wales.nhs.uk/

# Y Tîm Gofal Iechyd Cychwynnol

## Y Meddygon (Partneriaid)

Mae'r Partneriaid yn cynnal rhestr ar y cyd ac mae gan gleifion yr hawl i ddewis pwy y byddent yn hoffi eu gweld, yn dibynnu a oes apwyntiad ar gael. Dywedwch pwy hoffech ei weld wrth wneud eich apwyntiad os gwelwch yn dda.

- **Dr Peter Romachney** MB ChB (Manceinion 1991) DRCOG, MRCGP. Hyfforddwr Cofrestryddion Meddygon Teulu. Ymunodd Dr Romachney â'r practis yn 1997.
- **Dr Abdul Pasha** MBBS, MRCGP, DFSRH, Dip CTG (Mysore, India 2001)
- **Dr Nicky Davies** MB ChB (Sheffield 1997) MRCGP, DRCOG, DFSRH. Ymunodd Dr Davies â'r practis yn 2009 a daeth yn bartner ym mis Gorffennaf 2012.
- **Dr Jonathan Edwards** MB ChB, MRCGP (Caerdydd 2005). Ymunodd Dr Edwards â'r practis ym mis Medi 2013.
- **Dr Naval Bilolikar** MBBS, MRCGP, MS Orthopaedeg. Ymunodd Dr Bilolikar â'r practis ym mis Mawrth 2012, a daeth yn bartner ym mis Tachwedd 2014.
- **Dr Hayley Scott** MB ChB (Prifysgol Birmingham 2010). Ymunodd Dr Scott â'r practis ym mis Medi 2019.

## Rheolwr y Practis

- **Mrs Lesley Alexandrou** - ymunodd â'r practis yn 2001. Mae hi'n gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd Gellir cysylltu â hi ar 01745 812863.

## Y Tîm Nyrsio

- **Andrew Williams ANP** wedi ymuno â'r practis ym Gorffennaf 2019. Mae Andrew yn Ymarferydd Nyrsio Uwch ac yn gweithio'n agos gyda'r Meddygon Teulu. Mae Andrew yn yn meddu blynyddoedd lawer o brofiad yn orthopaedeg.
- Ymunodd **Delyth Evans (RGN)** â'r feddygfa ym mis Ionawr 2019. Nyrs sy'n delio hefo salwch mân yn ogystal ag amrywiaeth eang o fân anafiadau yw Delyth.
- Ym mis Awst 2017, ymunodd **Andrew Jones RNA/SPDN** a'r feddygfa, ac mae ganddo ddiddordeb mewn cyflwr anadlol a'r clefyd melys
- Ym mis Mawrth 2021, ymunodd **Lyn Bellis RN** a'r feddygfa
- **Lyn Jones, Cynorthwyydd Gofal Iechyd. NVQ III HCA**. Ymunodd Lyn â'r practis yn 2002. Mae Lyn wedi hyfforddi fel fflebotomydd ac yn medru cynorthwyo mewn llawer o ddyletswyddau nyrsio eraill fel Spirometreg, CHD, brechiadau'r ffliw.

**Y Dderbynfa**: Mae'r derbynyddion yn gyswllt pwysig i gleifion â'r practis a nhw yw eich pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer apwyntiadau ac ymholiadau cyffredinol. Maen nhw hefyd yn rhoi gwybodaeth sylfaenol ar wasanaethau a chanlyniadau ac yn eich cyfeirio at yr unigolyn cywir yn dibynnu ar eich problem iechyd neu ymholiad.

**Y Dosbarthwyr**: Mae'r tîm yn gallu dosbarthu meddyginiaethau a ragnodwyd i chi yn y feddygfa os ydych yn byw dros filltir o fferyllfa. Gellir archebu ail bresgripsiynau drwy:

- Gymryd rhan yn system ail archebu awtomatig y feddygfa (cleifion dosbarthu)
- Gadael ffurflen gais yn y bocs postio y tu allan i'r adran ddosbarthu
- Defnyddio ein gwasanaeth ar-lein www.beechhouse.gpsurgery.net

Gadewch 48 awr cyn eu nôl. Sylwer na fydd ceisiadau a roddir ar brynhawn dydd Gwener yn barod i'w nôl tan y dydd Mawrth canlynol, gan ychwanegu diwrnod neu ddau os yw dros Ŵyl y Banc. (Os oes gennych apwyntiad gyda'r meddyg, caniatewch 48 awr am eich ail bresgripsiynau os gwelwch yn dda).

- Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth danfon presgripsiynau i gartrefi cleifion sydd ar y rhestr dosbarthu. Gofynnwch i aelod o staff am fwy o fanylion am y gwasanaeth hwn.

- Mae fferyllfeydd lleol yn casglu presgripsiynau yn ddyddiol ar gyfer cleifion sydd ddim ar y rhestr dosbarthu, gan ganiatáu i'r claf fynd yn uniongyrchol at y fferyllydd i gasglu'r presgripsiwn 48 awr ar ôl ei archebu. Gofynnwch i un o'r staff drefnu hyn i chi os bydd hyn o fudd i chi.

- **Nyrsys y Practis:** Mae nyrsys y feddygfa yn gymwys iawn ac maent yn aelodau profiadol o'r tîm sy'n cynnal amryw o glinigau eu hunain ac sy'n gallu cynghori ar ystod o faterion iechyd. Mae'r holl nyrsys yn gofalu am y dyletswyddau canlynol:

  - ECGs
  - Profion iechyd - yn cynnwys cyngor rhoi'r gorau i ysmygu, cyngor dietegol,
  - Cyngor unigolyn iach a chyngor ar golesterol
  - Profion iechyd i gleifion newydd
  - Profion iechyd i rai dros 75 oed
  - Fflebotomi
  - Tynnu pwythau
  - Trin briwiau
  - Monitro pwysau gwaed 24-awr
  - Chwistrellu clustiau
  - Peiriannau TENS

**Mae dyletswyddau eraill mwy arbenigol yn cynnwys:**

- Asthma
- Diabetes
- Clefyd cronig y galon
- Gwasanaeth Cynllunio Teulu
- Gorbwysedd
- Cyngor teithio a brechlynnau
- Merched iach, diwedd y mislif a HRT

**Y Tîm Gweinyddol:** Maent wedi'u lleoli yn Beech House. Mae'r tîm gweinyddol yn delio gyda rheoli'r feddygfa o ddydd i ddydd ac yn darparu ystod o wybodaeth a chyngor i gleifion. Mae'r tîm gweinyddol hefyd yn gallu rhoi gwybodaeth a chymorth i gleifion sy'n gofalu am berthnasau neu ffrindiau gartref.

**Y Nyrs Seiciatrig Cymuned:** Tîm Dyffryn Clwyd, gwneir cyfeiriadau trwy eich meddyg teulu.

**Y Tîm Nyrsio Cymuned:** Gellir cysylltu â'r nyrsys cymuned trwy adael neges yn y feddygfa neu yn Inffyrmari Dinbych. Maen nhw yno i helpu cleifion a'u teuluoedd ar ôl iddynt adael yr ysbyty, neu gyda salwch cronig neu anableddau.

**Yr Ymwelwyr Iechyd:** Fe'i lleolir yn Inffyrmari Dinbych a Chanolfan Iechyd Llanelwy ac maen nhw yma i gynnig cyngor ar faterion gofal iechyd i famau a babanod, a phlant hyd at oed ysgol.

- Ymunodd Mrs Claire Kellett â'r feddygfa ym 1997 ac mae hi'n gweithio'n rhan amser ym Meddygfa Llanelwy.

## Gwasanaethau eraill a leolir yn y practis:

- Goruchwyliaeth Iechyd Plant
- Gwasanaethau Cynllunio Teulu yn cynnwys gosod coil a Nexplanon
- Mân Lawfeddygaeth
- Pigiadau yn y Cymalau
- Gwasanaeth anymataliaeth straen
- Nyrs Seiciatrig Cymuned
- Cyngor ar Bopeth

## Sut i Gofrestru

Ein polisi yw derbyn pob claf waeth beth fo'i oed, rhyw, hil, crefydd, ethnigrwydd, dosbarth cymdeithasol, edrychiad, tueddfryd rhywiol neu gyflwr meddygol. Os byddwch yn dymuno cofrestru gyda'r Practis, cysylltwch ag un o staff y dderbynfa. Gofynnir i chi lenwi Ffurflenni Cofrestru ac fe'ch gwahoddir i wneud apwyntiad â nyrs y practis am brawf iechyd.

Bydd gofyn i chi roi tystiolaeth o bwy ydych chi a'ch cyfeiriad presennol. Dewch â modd adnabod â llun arno, sef pasport neu drwydded yrru a bil gwasanaeth diweddar. Os ydych yn cofrestru plentyn, dewch â'i dystysgrif geni.

Mae ffiniau'r practis yn ymestyn o Ddinbych i ardaloedd o Fodelwyddan yn y gogledd, Cyffylliog a Rhewl yn y de, Nannerch yn y dwyrain a Llansannan yn y gorllewin er enghraifft. Er mwyn cael gwybod a yw eich cod post o fewn ein ffiniau, rhowch eich cod post i'r tîm gweinyddol

## Trigolion Dros Dro

Os ydych yn dymuno gweld meddyg pan rydych i ffwrdd o'ch cartref, gallwch gofrestru gyda'r feddygfa fel claf dros dro.

### Anableddau

Os ydych yn dioddef o anabledd, rydym yn cynnig:

- Ymgynghoriad ar y llawr isaf â'r meddyg teulu a'r tîm nyrsio
- Dolen Glyw
- Gwybodaeth i gleifion mewn ffurfiau gwahanol e.e. print bras neu sain
- Gwybodaeth i ofalwyr
- Grŵp Cefnogi Gofalwyr
- Gallwn hefyd roi gwybodaeth am amrywiaeth o grwpiau gofalwyr

## Llinell Iaith a Chyfieithu ar y pryd

Mae gwasanaethau iaith a chyfieithu ar y pryd ar gael; holwch yn y Dderbynfa os oes arnoch angen y gwasanaeth hwn.

**Helpwch ni i'ch helpu chi**

**Os bydd gennych unrhyw ofynion neu sylwadau eraill, rhowch wybod i ni**

## Ymweliadau Cartref

Gall meddyg ymweld â chi yn eich cartref os ydych yn gaeth i'ch cartref, neu os bydd yn angenrheidiol am resymau meddygol. Fodd bynnag, gan nad ydym yn gallu darparu cyfleusterau meddygaeth cyffredinol modern yn y cartref, byddai'n well i chi pe baech yn gallu dod i'r feddygfa os yw'n bosibl. Os ydych yn meddwl eich bod angen ymweliad â'r cartref ffoniwch y feddygfa cyn 10.30am os yw'n bosibl. Efallai bydd y meddyg yn eich ffonio'n ôl i drafod eich cais.

## Ymgynghori â Meddyg

Fe allwch ymgynghori ag unrhyw feddyg o fewn y practis gan fod y system gyfrifiadurol yn galluogi'r holl feddygon i gael mynediad at eich cofnodion iechyd. Cofiwch, dim ond un claf i bob apwyntiad, a rhowch wybod i ni os na allwch gadw apwyntiad fel y gallwn ei gynnig i glaf arall.

## Cyngor Dros y Ffôn

Os ydych yn ffonio i siarad â meddyg pan fydd yn ymgynghori â chleifion fe fydd y derbynnydd yn cymryd neges ac yn sicrhau ei fod yn cael ei basio ymlaen fel bod y meddyg yn eich ffonio yn ôl. Ond os ydych angen siarad â meddyg ar frys bydd y derbynnydd yn eich rhoi yn syth trwodd i'r meddyg ar ddyletswydd.

## Canlyniadau Profion

**Cyfrifoldeb y claf yw sicrhau ei fod yn cysylltu â'r feddygfa am ganlyniadau profion. Cysylltwch â thîm y dderbynfa ar ôl 2.30pm i gael eich canlyniadau.**

## Iechyd Teithwyr

Dylai cleifion sy'n bwriadu teithio dramor ofyn am apwyntiad â nyrs y practis mor fuan â phosibl cyn eu dyddiad teithio. Bydd y Nyrs yn rhoi cyngor ar deithio i chi ac yn dynodi a oes angen unrhyw bigiadau neu beidio. Bydd y nyrs yn trefnu apwyntiad i chi ddod i mewn i gael y pigiadau. Efallai bydd rhai pigiadau ar gael am ddim ar y GIG, ond bydd angen codi tâl am y lleill. Rhaid talu ymlaen llaw amdanynt.

## Gwarchodwr

Os hoffech i warchodwr fod gyda chi yn ystod ymgynghoriad, rhowch wybod i aelod o dîm y dderbynfa wrth gyrraedd os gwelwch yn dda. Gallwch hefyd ofyn am warchodwr ar unrhyw adeg yn ystod eich ymgynghoriad.

## Newid Manylion Personol

Rhowch wybod yn y dderbynfa cyn gynted â phosib os ydych yn newid eich enw, cyfeiriad neu rif ffôn.

## Cefnogaeth i Ofalwyr

Ydych chi'n gofalu am ffrind neu berthynas sydd, oherwydd anabledd, salwch neu effeithiau oed yn methu gofalu amdanynt yn eu cartrefi eu hunain heb eich cymorth? Gall Meddygfa Beech House gynnig cefnogaeth a gwybodaeth. Os ydych angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag aelod o'r tîm gweinyddol.

## Mynediad at Gofnodion Meddygol

Mae eich cofnodion iechyd ar bapur a chyfrifiadur yn hygyrch o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig ffurfiol am fynediad i Reolwr y Feddygfa (mae ffurflen bwrpasol ar gyfer hyn ar gael gennym), gyda'r ffi berthnasol. Mae rhestr lawn o'r ffioedd yn cael eu harddangos yn yr ystafell aros.

## Cyfrinachedd / Caldicott

Mae'r holl wybodaeth am gleifion yn gyfrinachol. Fodd bynnag, weithiau, er budd y claf, y gallai gwybodaeth bersonol gael ei rhannu gyda darparwyr gofal iechyd eraill, fel meddygon ymgynghorol ysbyty, therapyddion a gweithwyr proffesiynol iechyd eraill sydd hefyd yn cael eu rhwymo gan egwyddorion cyfrinachedd. Efallai hefyd y bydd achlysuron pan fydd data dienw yn cael ei gasglu ar gyfer dadansoddiad ystadegol Iechyd Gwladol. Er mwyn darparu data nad yw'n ddienw bydd angen eich caniatâd ysgrifenedig. Bydd hyn yn ein galluogi i rannu gwybodaeth gyda sefydliadau GIG eraill lle gallai hyn fod er eich lles.

Mae gan bob aelod o'r Tîm Gofal Iechyd Cychwynnol ddyletswydd i wneud popeth y gallant i gadw eich data'n ddiogel. Cynlluniwyd Egwyddorion Caldicott i helpu i gadw gwybodaeth sy'n enwi claf yn ddiogel ac fe'i defnyddir wrth drin pob gwybodaeth sy'n eich enwi. Os ydych chi'n teimlo bod cyfrinachedd wedi'i dorri, cysylltwch â Rheolwr y Feddygfa os gwelwch yn dda. Mae'r feddygfa'n rhoi pwyslais mawr ar ddyletswydd gofal cleifion.

Rydym yn bractis gweithredol ymchwil ac yn cydweithio'n agos â BIPBC a'r Adran ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Rhydd hyn y cyfle i ni gynnig cyfleoedd i'n cleifion i gymryd rhan mewn ymchwil clinigol ac mae'n caniatáu i ni gyfrannu at ddatblygiad triniaethau newydd. Mae'r holl astudiaethau o ansawdd uchel ac fe'u cymeradwyir gan y Bwrdd Iechyd Lleol. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, rydym yn cyfrannu data dienw at y gronfa ddata SAIL.

## Mynegi Pryderon neu Gwynion

Ein nod yw darparu gwasanaeth a gofal o'r safon uchaf i'n cleifion. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli nad yw pethau weithiau'n mynd mor rhwydd ag y dymunwch, neu efallai y byddwch yn teimlo nad ydych wedi cael y gwasanaeth roeddech yn ei ddisgwyl. Os mai dyma'r achos, mae croeso i chi gysylltu â Mrs Lesley Alexandrou, Rheolwr y Feddygfa i drafod eich pryderon. Mae taflen sy'n esbonio'r Drefn Gwyno ar gael yn y practis neu ar ein gwefan.

## Ymddygiad Treisgar neu Ymosodol

Mae staff y practis yma i'ch helpu. Fodd bynnag, rydym yn cefnogi Polisi'r GIG ar Oddef Dim yn gryf. Bydd unrhyw un sy'n dod i'r feddygfa sy'n cam-drin y meddygon teulu, staff neu gleifion eraill, boed hynny ar lafar, yn gorfforol neu mewn unrhyw ffordd ymosodol o fath yn y byd, mewn perygl o gael eu tynnu oddi ar restr y practis.

## Awgrymiadau neu Sylwadau

Mae'r feddygfa'n croesawu adborth a sylwadau. Os hoffech gynnig awgrym neu sylw, siaradwch ag aelod o'r tîm. Mae gennym adran ar adborth ac arolwg ar ein gwefan

## Grwpiau Cyfraniad Cleifion

Rydym yn awyddus i ail gychwyn ein Grŵp Cleifion. Bwriad y grŵp yw trafod a chyflwyno syniadau ar gyfer datblygiad y practis a gwella gwasanaethau. Byddai gennym ddiddordeb mawr mewn clywed gennych os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r grŵp hwn, neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu sylwadau.

## Hyfforddiant i Staff

Mae’r Practis wedi cytuno, ynghyd â meddygfeydd eraill, i gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi misol gyda chefnogaeth gan y Bwrdd Iechyd Lleol. Mae'r sesiynau hyfforddi o fudd mawr i’r practis, gan sicrhau ein bod yn parhau i gynnig gofal a gwasanaeth o safon uchel i’n cleifion. Mae'r feddygfa ar gau o 1:00pm i 5.00pm pan fydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal. Bydd rhybudd ymlaen llaw o'r dyddiadau hyfforddi yn cael ei arddangos yn y feddygfa.

### Hyfforddiant Meddygon Teulu

Mae naws y practis yn un o welliant parhaus ac mae'n cefnogi hyfforddiant meddygon teulu. Mae'r practis yn bractis hyfforddi i Gofrestryddion Meddygon Teulu sydd yn feddygon cymwys ac sydd eisiau gweithio fel meddygon teulu.

Mae’r practis hefyd yn derbyn myfyrwyr meddygol o Brifysgol Lerpwl ynghyd ag ysgolion meddygol eraill. Mae'r myfyrwyr hyn yn cynnal eu clinigau eu hunain gyda goruchwyliaeth un o'r partneriaid meddygon teulu.

Rydym hefyd yn cefnogi myfyrwyr chweched dosbarth sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa mewn meddygaeth. Maen nhw'n dod i'r practis i arsylwi a chael profiad. Byddwch yn cael gwybod os bydd myfyriwr meddygol yn bresennol yn ystod eich ymgynghoriad, ond mae'n ddealladwy ac yn briodol i gleifion ofyn am gael gweld y meddyg neu nyrs ar eu pennau eu hunain os ydynt yn dymuno.

## Oriau Agor y Feddygfa

| | | |
|---|---|---|
| **Beech House Dinbych** | 8:00am–6:00pm yn ystod yr wythnos | Os ydych chi'n ffonio'r feddygfa i holi am ganlyniadau profion, ffoniwch yn y prynhawn pan fydd ein llinellau ffôn yn tueddu i fod yn dawelach. |
| **Canolfan Iechyd Llanelwy** | 8:00am–6:00pm yn ystod yr wythnos | Mae'r feddygfa ar gau am hanner diwrnod bob dydd Iau o 1:00pm. |

## Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau

Mae’r gwasanaeth hwn yn darparu gofal meddygol y tu allan i oriau o: 6.30pm tan 8.00am o Ddydd Llun i Ddydd Gwener ac o 6.30pm Dydd Gwener tan 8.00am Dydd Llun, yn ogystal â phob Gŵyl Banc. Os bydd arnoch angen gweld meddyg yn ystod yr amseroedd hyn, ac yn byw neu'n aros yn ardal Gogledd Cymru, ffoniwch: **111.** Nid canolfannau galw heibio neu gerdded i mewn mo'r Canolfannau Triniaeth y Tu Allan i Oriau hyn; rhaid i gleifion drefnu apwyntiad cyn cael eu gweld drwy ffonio'r Rhif y Tu Allan i Oriau.

## System Apwyntiadau

- Mae’r llinellau ffôn yn agored rhwng 8:00 y.b. a 6:30 y.p o ddydd Llun i ddydd Gwener. (Rhif ffôn: 01745 812 863).
  Mae’r gofynion yn drwm yn y bore, ac rydym yn ddiolchgar am eich dealltwriaeth.
  Mae’r apwyntiadau yn llenwi yn sydyn iawn, felly nid yw’n anarferol i’n tîm derbynfa fod ag apwyntiadau cyfyngedig i’r doctor o’ch dewis.
  Gallwch hefyd wneud apwyntiad ar y wê. Byddwch angen cwbwlhau ffurflen gofrestru sydd ar gael o’r feddygfa, neu trwy fynd ar ein wefan.

❖ **Apwyntiadau y gellir eu trefnu ymlaen llaw**

Mae nifer o apwyntiadau ar gael i'w trefnu ymlaen llaw. Yr amseroedd sydd ar gael yw 8.30am - 9.30am a 3.30pm - 4.00pm a 5:00pm-5:30pm. Gellir trefnu'r rhain hyd at bythefnos ymlaen llaw. Nid yw'n bosibl trefnu apwyntiad ymlaen llaw ar y diwrnod yn dilyn Gŵyl y Banc.

❖ **Apwyntiadau ar yr un diwrnod**

Rydym yn cynnig apwyntiadau ar yr un diwrnod, sydd ar gael i'w trefnu o 8:00am bob dydd. Fodd bynnag, ni allwn sicrhau y byddwch yn gweld y meddyg teulu o'ch dewis os yw eu hapwyntiadau eisoes wedi cael eu llenwi.

❖ **Apwyntiadau 'brys'**

Hefyd mae gennym feddyg 'dyletswydd' sy'n cynnig apwyntiadau brys ar gyfer cleifion sydd angen gweld meddyg ar yr un diwrnod. Mae hyn yn sicrhau bod cleifion sydd angen gweld meddyg teulu yn cael cynnig apwyntiad. Mae'n bosibl na fydd hyn â'r meddyg teulu o'ch dewis.

❖ **Apwyntiadau â Nyrs**

Gallwch drefnu apwyntiadau â nyrs hyd at fis ymlaen llaw. Yn wahanol i apwyntiadau â meddyg teulu, mae'n well os gallwch roi syniad i'r derbynnydd ar gyfer beth mae'r apwyntiad er mwyn gallu gwneud apwyntiad i chi â'r nyrs neu Gynorthwyydd Gofal Iechyd cywir a rhoi digon o amser ar gyfer yr ymgynghoriad.

❖ **Mynychu apwyntiadau**

Dylech sicrhau eich bod yn cadw at bob apwyntiadau neu ffonio 24 awr o flaen llaw i ganslo (pan fo'n bosib) os nad ydych yn gallu dod. Mae hyn yn ein galluogi i gynnig yr apwyntiad i glaf arall ac yn lleihau amseroedd aros am apwyntiadau.

Mae oddeutu 160 o apwyntiadau'n cael eu methu bob mis, sydd yn apwyntiadau y gallem fod wedi eu cynnig i gleifion eraill.

Yn anffodus, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i gleifion sy'n methu eu hapwyntiadau'n rheolaidd, gofrestru mewn practis arall oherwydd eu bod yn camddefnyddio ein gwasanaeth.

❖ **System Ffôn**

Sylwer bod galwadau ffôn yn cael eu recordio at ddibenion ansawdd a hyfforddi. Pan fyddwch yn ffonio'r feddygfa, bydd eich galwad yn mynd drwy'r gwasanaeth awtomatig. Byddwch yn cael nifer o opsiynau i sicrhau bod eich galwad yn mynd i'r adran gywir i ateb eich ymholiad/cais. Mae'r opsiynau'n cael eu rhoi yn Gymraeg hefyd, er nad yw hyn yn golygu y byddwch yn cael eich trosglwyddo i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Os byddwch yn dymuno siarad â siaradwr Cymraeg, dywedwch wrth un o'r tîm.

❖ **Gwneud Apwyntiadau**

Bydd y derbynwraig yn gofyn wrythych am ddisgrifiad byr, pam ydych angen yr apwyntiad. Mae hyn i'n galluogi I wneud yn siwr eich bod yn gweld y clinigydd cywir y tro cyntaf.

**INFFYRMARI DINBYCH**
**ORIAU AGOR YR ADRAN PELYDR-X**
**(gan apwyntiad yn unig)**

(Sylwer: Nid oes gan Ysbyty Rhuthun adran pelydr-x bellach)

| DYDD | y.b. | y.p. |
|---|---|---|
| LLUN | 8:30 - 12:30pm | 2:00 - 4:30pm |
| MAWRTH | 8:30 - 11.30am | 2:00 - 4:30pm |
| MERCHER | 8:30 - 12.30am | 2:00 - 4:30pm |
| IAU | 8:30 - 12.30am | 2:00 - 4:30pm |
| GWENER | 8:30 - 12:30pm | 2:00 - 4:30pm |

**INFFYRMARI DINBYCH**
**PROFION GWAED (apwyntiad yn unig)**

**Ffoniwch 03000 850019 rhwng 10am a 2pm i wneud apwyntiad**

**Cofiwch** mai eich cyfrifoldeb chi yw ffonio'r feddygfa i gael y canlyniadau.

## Rhifau Ffôn y Practis

| | | |
|---|---|---|
| Derbynfa/ Apwyntiadau | Beech House | 01745 812863 |
| | Llanelwy | 01745 582251 |
| Fferyllfa | Beech House | 01745 813689 |
| Swyddog Gwybodaeth/Ysgrifenyddion | Beech House | 01745 815344 |
| Ffacs | Beech House | 01745 816574 |
| Ffacs | Llanelwy | 01745 583495 |
| Ymwelydd Iechyd | Inffyrmari Dinbych | 01745 818100 |
| | Llanelwy | 01745 448772 |

## Rhifau Ffôn Defnyddiol

| | |
|---|---|
| Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau - Gogledd Cymru | 111 |
| GIG 111 Cymru | 111 |
| Ysbyty Glan Clwyd | 01745 583910 |
| Inffyrmari Dinbych | 01745 818100 |
| Fferyllfa Boots, Dinbych | 01745 812860 |
| Rowlands, Dinbych | 01745 812602 |
| Royles, Dinbych | 01745 812067 |
| Fferyllfa City, Llanelwy | 01745 583200 |
| Fferyllfa Caerwys | 01352 721020 |

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**
Preswylfa
Ffordd Hendy
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1PZ
Ffôn: 01352 700227